

## DATGANIADAU ARIANNOL

AR GYFER Y FLWYDDYN HYD AT 31 GORFFENNAF 2009

## CYNNWYS

	TUDALEN
Adolygiad Gweithredol ac Ariannol o Brifysgol Cymru <b>ynghyd â'r Prif Bwyntiau Ariannol ac Ystadegau Allweddol Eraill</b>	2 – 5
Datganiad Llywodraeth Gorfforaethol	6 – 7
Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Cymru	8
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	9 – 10
Datganiad o'r Prif Bolisiau Cyfrifydda	11 – 14
Cyfrif Incwm a Gwariant	15
Datganiad o Gyfanswm yr Elw a'r Colledion Cydnabyddedig	16
Y Fantolen	17 – 18
Datganiad Llif Arian	19
Nodiadau'r Datganiadau Ariannol	20 – 38
Atodiad A – <b>Prif Weithrediadau'r Brifysgol – Crynodeb o'r Cyfrifon Incwm a Gwariant am y Blynyddoedd hyd at 31 Gorffennaf 2009 a 2008</b>	40 – 41
Atodiad B – Crynodeb o Gyfrifon Pum Mlynedd: Cyfrif IaG, Mantolen ac Ystadegau	42 – 44
Atodiad C – Prif Gorff Llywodraethu, Pwyllgorau, Prif Swyddogion a Staff, Cyngorwyr, etc.	46 - 49

PRIF BWYNTIAU ARIANNOL Y DATGANIADAU ARIANNOL  
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2009

	2009	2008	Newid
<u>Cyfrif Incwm a Gwariant</u>	£000	£000	%
<u>Incwm</u>			
<b>Grantiau'r Cyngor Cyllido</b>	582	697	(16)
Grantiau a Chontractau Ymchwil	356	84	323
Incwm Gweithredu Arall	9,760	8,452	15
Incwm Gwaddol a Buddsoddi	1,155	1,378	(16)
Cyfanswm yr Incwm	11,853	10,611	12
Cyfanswm y Gwariant	11,423	9,226	24
Gwarged ar Weithrediadau Parhaus	430	1,385	
<b>Gwarged y Flwyddyn wedi'i Drosglwyddo i Incwm</b>	(16)	(78)	
Cronnus mewn Cronfeydd Gwaddol			
Gwarged Cyffredinol am y Flwyddyn a Gedwir yn y Cronfeydd Cyffredinol	414	1,307	
<u>Mantolen</u>			
Asedion Gosodedig	7,446	7,933	(6)
Buddsoddiadau Gwaddol	14,089	15,069	(7)
Asedion Cyffredol Net	7,635	7,247	5
Darpariaethau Rhwymedigaethau a Chostau	-	(43)	-
Rhwymedigaeth Cynllun Pensiwn	(1,233)	(616)	(100)
Asedion Net	27,937	29,590	(6)
(Gostyngiad) / Cynnydd mewn Cronfeydd net	(566)	203	
<u>Ystadegau Allweddol Eraill</u>	2009	2008	
	Nifer	Nifer	
Niferoedd Staff Cyfartalog Cyfwerth-ag-Amser-Llawn	114.5	103.0	11
Myfyrwyr a Gymhwysodd am Raddau Prifysgol Cymru			
- Sefydliadau Achrededig : Cyntaf	11,773	11,771	(0.2)
: Uwch	4,537	5,007	(9.4)
- Sefydliadau Dilysedig : Cyntaf	2,075	2,053	1.1
: Uwch	2,266	1,642	38.0
- Sefydliadau Perthynol : Initial	1,060	1,584	(33.1)
: Cyntaf	347	567	(38.8)
CYFANSWM	22,058	22,624	(2.5)

## ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL 2008-2009

### Natur Prifysgol Cymru

Sefydlwyd Prifysgol Cymru drwy Siarter Frenhinol ym 1893. Y Brifysgol yw'r corff dyfarnu graddau ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn ei sefydliadau achrededig a pherthynol ledled Cymru yn ogystal ag ar gyfer nifer fawr o sefydliadau addysg uwch eraill yn y DU a gweddill y byd y mae eu myfyrwyr yn ymgymryd â chysiau astudio yn y sefydliadau hynny, ond a ddilysir gan y Brifysgol fel cysiau sydd o safon gyfatebol i'r un graddau a gynigir yng Nghymru ei hun. Dan y trefniadau dilysu hyn yn 2008/09 roedd gennym ni tua 21,000 o fyfyrwyr cofrestredig mewn 30 o wledydd a 120 o sefydliadau ar draws y byd, ac yn ein sefydliadau achrededig a pherthynol roedd gennym tua 40,000 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru am ein graddau. Gyda'i gilydd, mae hyn yn golygu mai Prifysgol Cymru yw un o'r cyrff dyfarnu graddau mwyaf yn y DU.

Dan Siarter a Statudau diwygiedig a ddaeth yn weithredol ar 1 Medi 2007, mae'r Brifysgol yn eistedd ochr yn ochr â'i sefydliadau achrededig yng Nghymru mewn perthynas gonffederal lle mae'r sefydliadau hynny'n cael eu hachredu gan y Brifysgol i ddyfarnu ei graddau sydd ag enw da byd-eang. Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio'i sylw ar hybu a gwarchod ei phwerau dyfarnu graddau ac enw ei brand, a datblygu ei gweithredoedd dilysu tramor

Yn ogystal â'i phrif swyddogaeth yn dyfarnu graddau mae'r Brifysgol hefyd yn ymgymryd â nifer o weithgareddau amrywiol eraill. Mae'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn ganolfan ymchwil benodedig o ragoriaeth y mae ei staff ymchwil yn ymgymryd â phrosiectau ymchwil amlddisgyblaethol mawr, gyda llawer o'r rhain wedi llwyddo i ddenu grantiau sylweddol iawn o'r AHRC a chyrrff eraill o'r fath. Yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil yn 2008 enillodd 35% o'i hymchwil raddiad o safon fyd-eang ac roedd 45% o safon ryngwladol ragorol, gan gadarnhau ei statws fel ganolfan ryngwladol o **ragoriaeth ym maes Astudiaethau Celtaidd. Sefydlwyd Gwasg Prifysgol Cymru ym 1922 ac mae'n dŷ** cyhoeddi uchel ei pharch ar gyfer geiriaduron, gweithiau cyfeiriol, cylchgronau dysgedig, testunau academiaidd etc. Mae'n cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn gwasanaethu cymuned academiaidd Cymru gyda chymorth grant penodol oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Cymynroddwyd Neuadd Gregynog i'r Brifysgol ym 1960 gan y diweddar Miss Margaret S Davies ac fe'i hagorwyd ym 1964 fel ganolfan addysgol ar gyfer cysiau arhosiad byr a dydd. A hithau'n sefyll mewn 750 o erwau o erddi, coetiroedd a thir amaethyddol ger y Drenewydd ym Mhowys, mae'r plasty rhestredig Gradd II\* yn darparu cyrchfan eithriadol ar gyfer astudiaeth ddwys. Mae Academi Fyd-Eang y Brifysgol yn cael ei datblygu gyda'i sefydliadau partner strategol a chyrrff cyhoeddus eraill fel modd o hybu perfformiad economaidd ac arloesol Cymru drwy fentrau cydweithredol rhwng addysg uwch a'r sector preifat yng Nghymru ac mae'n unol â pholisi diweddar y Llywodraeth o feithrin cysylltiadau agosach rhwng academia a diwydiant. Mae wedi llwyddo i ddenu cyllid ERDF drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y flwyddyn ar gyfer rhaglen graddau ymchwil bum mlynedd werth £11M, ar gyfer lleoli 100 o ysgolheigion gorau'r byd mewn cwmnïau preifat yn ardaloedd cydgyfeirio Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Brifysgol wedi datblygu cynllun strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf sy'n cwmpasu cyfnod parhaus o fuddsoddi yn yr amcanion strategol canlynol:

- Cynnal a mwyhau ansawdd a safonau graddau a dyfarniadau academiaidd eraill y Brifysgol
- Parhau i gynnal cydnabyddiaeth yng Nghymru a ledled o ansawdd a safon fyd-eang ymchwil ac ysgolheictod y Brifysgol.
- Cyfrannu'n hanfodol ac arloesol i les economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a deallusol Cymru, yn ogystal â'i chynnaladwyedd.
- Datblygu ymhellach rhyngweithio'r Brifysgol â phartneriaid rhyngwladol, a thrwy hynny, ei heffaith yn fyd-eang.
- Sicrhau fod yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r amcanion hyn ar gael ar sail gynaliadwy at y dyfodol a bod trefniadau llywodraethu a rheoli'r Brifysgol yn addas i'r diben.

## ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL 2008-2009

---

### Sefyllfa Ariannol

Ategir strategaeth gweithredu'r Brifysgol a amlinellir uchod gan fantolen hynod o gryf. Bydd y buddsoddiad a wneir yn ei amcanion strategol dros y pum mlynedd nesaf yn tynnu ar ei chronfeydd er mwyn cryfhau'r sylfaen gweithredu cynaliadwy y bydd y Brifysgol yn tyfu arno.

Mae'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2009 yn cynnwys canlyniadau gweithgaredd Cofrestrfa'r Brifysgol wrth gefnogi prif weithgareddau'r Brifysgol fel awdurdod dyfarnu graddau ac amrediad y Gwasanaethau Canolog eraill y mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol amdanynt. Mae Atodiad A i'r Datganiadau Ariannol yn cynnwys dadansoddiad o'r prif eitemau incwm a gwariant ar gyfer pob un o brif weithgareddau'r Brifysgol, ynghyd â gwybodaeth gymharol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos y graddau y mae Cyngor y Brifysgol yn darparu grantiau i gefnogi gwahanol weithgareddau'r Brifysgol. Yn Atodiad B ceir dadansoddiad pum mlynedd o gyfrifon incwm a gwariant y Brifysgol, ynghyd â'i mantolenni a'i dangosyddion ariannol allweddol.

### Canlyniadau'r Flwyddyn

Mae'r atodlen ariannol gryno ar dudalen 2 uchod yn dangos uchafbwyntiau ariannol y flwyddyn a gwelir manylion pellach ym mhrif gorff y datganiadau ariannol. Mae Cyngor y Brifysgol yn falch i adrodd, am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2009, fod y Brifysgol wedi sicrhau gwagedd cyffredinol ar ei gweithgareddau parhaus o £430K ar gyfanswm incwm o £11.9M o'i gymharu â £1.4M a £10.6M yn eu tro yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y gwagedd am y flwyddyn ar ôl darparu ar gyfer amhariad ariannol o £528K mewn perthynas ag adneuon a llog cronrus o £1.1M mewn dau Fanc o Wlad yr Iâ a fethodd, fel yr esbonnir yn Nodyn 23 i'r cyfrifon hyn.

Cafwyd twf o £1.2M (12%) yng nghyfanswm incwm y flwyddyn i £11.9M, yn bennaf o'r twf parhaus yng ngweithgareddau dilysu'r Brifysgol a greodd ffioedd ac incwm arall o £7M o'i gymharu â £5.4M yn y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd incwm o grantiau ymchwil a chontractau £272K, yn bennaf o ganlyniad i grantiau o'r AHRC i'r Ganolfan Geltaidd a grant ERDF at gyfer graddau ymchwil dan yr Academi Fyd-Eang.

Cyllid cyfyngedig yn unig y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn gan CCAUC, ar ffurf grantiau neilltuedig i'r Wasg ac uned y Geiriadur yn y Ganolfan Geltaidd a grant QR ar gyfer gweithgareddau ymchwil y Ganolfan. Roedd cyfanswm cyllid CCAUC yn llai na 5% o gyfanswm incwm y Brifysgol am y flwyddyn. Roedd incwm gwaddol a buddsoddi yn £1.2M am y flwyddyn o'i gymharu â £1.4M yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad o tua £200K yn bennaf yn adlewyrchu'r cyfraddau llog isel iawn oedd ar gael ar adneuon y DU yn dilyn y cwmp yn y cyfraddau sail i'r lefel hanesyddol isel o 0.5% erbyn mis Mawrth 2009 o ganlyniad i'r argyfwng credyd byd-eang a ddaeth i uchafbwynt ym mis Medi 2008 pan fethdalodd banc buddsoddi Lehman Brothers yn yr Unol Daleithiau.

Roedd cyfanswm gwariant gweithredu'r flwyddyn, ac eithrio darpariaeth yr amhariad eithriadol o £528K, £1.7M (18%) yn uwch ar £10.9M. Roedd cyfanswm costau staff £653K yn uwch (19%) sef tua £4.2M. Roedd y cynnydd hwn yn sgil effaith dyfarniad cyflog dau gam yn 2008, a ychwanegodd dros 8% i gostau sail cyn ychwanegiadau ynghyd â chynnydd sylweddol yn nifer y staff 10%) ar gyfer yr Academi Fyd-Eang, gwasanaethau dilysu a sicrhau ansawdd. Gwelwyd cynnydd mewn gwariant Gweithredu arall o tua £1.1M (20%) i £6.6M oherwydd yr ehangu cyflym a welwyd yn y gwasanaethau dilysu fel yr esbonnir uchod.

### Perfformiad Buddsoddi

Parhaodd y cynnwrf na welwyd ei debyg yn y marchnadoedd arian heb ball yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol. Yn y DU, cyrhaeddodd y FTSE 100 ei fan isaf, sef 3,512 ym mis Mawrth 2009 cyn dychwelyd i 4,608 erbyn 31 Gorffennaf mewn ymateb i ymdrechion llywodraethau byd-eang i hybu eu heconomiâu gyda chwistrelliadau enfawr o hylifedd a thrwy effeithiau cyfraddau llog isel. Cafwyd dibrisiant o £1.4M (ychydig o dan 7%) yng ngwerth marchnad cyfunol asedion sefydlog a buddsoddiadau asedion gwaddol y Brifysgol dros y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2009, ond gostyngodd incwm dosbarthedig o bortffolio buddsoddiadau'r Brifysgol 3% yn unig er gwaethaf effaith y dirywiad economaidd ar enillion corfforaethol.

## ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL 2008-2009

---

### Llifoedd Arian

Roedd gostyngiad mewn cronfeydd net yn y flwyddyn o £566K o'i gymharu â chynnydd o £203K yn y flwyddyn flaenorol. Ac eithrio effaith y ddarpariaeth amhariad o £528K ar gyfer adneuon Banciau Gwlad yr Iâ roedd y gostyngiad yn £38K. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd llif arian ac adneuon tymor byr y Brifysgol yn £5.5M gyda £1.4M arall yn cael ei ddal mewn asedion gwaddol. Caiff y rhain eu rheoli'n fewnol yn unol â pholisi rheoli trysorlys y Brifysgol sy'n ceisio cyflawni'r enillion uchaf posibl ar ei adneuon ar y risg isaf bosibl drwy gyfyngu'r cyfanswm a osodir mewn sefydliadau unigol a defnyddio'r rheini y mae eu graddfeydd credyd ar ben uchaf y sbectrwm yn unig. Mae argyfwng credyd byd-eang 2008 wedi lleihau yn sylweddol y nifer o sefydliadau ariannol sy'n meddu ar y graddfeydd credyd uchaf a hefyd y cyfraddau llog a gynigir ar adneuon. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar incwm y Brifysgol o'r ffynonellau hyn ond mae'r Brifysgol wedi penderfynu peidio â gostwng ei meini prawf graddfa credyd er mwyn denu enillion uwch ar ei hadneuon.

### Mantolen

Er gwaethaf cyfanswm y colledion cydnabyddedig o £1.6M dros y flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i gynnydd y diffyg yn y cynllun pensiwn a'r gwmp mewn gwerthoedd asedion sefydlog a gwaddol, mae mantolen y Brifysgol yn parhau i fod yn gryf gydag asedion net o gwmpas £28M ar 31 Gorffennaf 2009. Nid oes ganddi unrhyw fenthycy allanol, mantolenni arian parod iach ac asedion gwaddol sylweddol. Dyblodd yr atebolrwydd ar ei chynllun pensiwn mewnol i £1.2M yn ystod y flwyddyn yn bennaf o ganlyniad i berfformiad gwael y buddsoddiadau ecwiti yn y gronfa a reolir. Mae'r sector prifysgol yn y DU yn gynyddol bryderus am rwymedigaethau cynlluniau pensiwn ac mae adolygiad ar waith i bennu'r ffordd orau i fynd i'r afael â'r mater.

### Casgliad

Mae sefyllfa ariannol y Brifysgol yn gadarn ac mae ei llif incwm o'r ddarpariaeth gydweithredol yn parhau i dyfu bob blwyddyn. Mae ganddi ganolfan ymchwil o safon fyd-eang yn y Ganolfan Geltaidd a chyfleuster cynadledda yng Ngregynog sy'n cynnig cyfle am amrywiaeth sylweddol yn ei gweithrediadau. Mae'r Academi Fyd-Eang wedi'i hanelu'n uniongyrchol at annog cydweithio rhwng addysg uwch yng Nghymru a diwydiant a bydd y Brifysgol yn buddsoddi mewn uchafu ansawdd a seilwaith ymchwil dros y bum mlynedd nesaf. Mae hefyd wedi buddsoddi yn ystod 2009 mewn amgylchedd ar-lein cydweithredol i ddarparu gwybodaeth, rhwydweithio a chyfleoedd dysgu i'w holl randdeiliaid (y Campws Byd-Eang). Mae'n ffurfio partneriaethau pwysig yn Tsieina ac Asia a hefyd yn ehangu ei gweithgareddau dilysu ar draws y byd. Yn bennaf, mae wedi ffurfio cynghrair ffurfiol â'r sefydliadau addysg uwch hynny yng Nghymru sy'n parhau i ddyfarnu ei graddau. Prif nod y gynghrair hon yw datblygu mentrau strategol newydd a fydd yn cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol, diwylliannol a deallusol Cymru. Bydd y gynghrair hefyd yn cefnogi ac yn diogelu amcanion, ansawdd a safonau academaidd y Brifysgol a'r sefydliadau.

Drwy'r holl fentrau hyn y bwriad yw y bydd brand Prifysgol Cymru yn parhau i gael ei gydnabod fel enghraifft ryngwladol o ansawdd mewn addysg uwch.

D Hugh Thomas  
Cadeirydd y Cyngor

DATGANIAD LLYWODRAETH GORFFORAETHOL  
2008 - 2009

---

Mae Prifysgol Cymru yn ymrwymedig i sicrhau arferion gorau ym mhob agwedd o lywodraethu corfforaethol. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r ffordd y mae'r Brifysgol wedi dilyn yr egwyddorion a osodir yn y Cod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol a hefyd y Cod Ymarfer Llywodraethu a'r Egwyddorion Cyffredinol a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol ym mis Tachwedd 2004, sydd wedi'u cylchredeg i holl aelodau Cyngor y Brifysgol. Ei ddiben yw helpu darllynydd y datganiadau ariannol i ddeall sut y mae'r egwyddorion wedi'u cymhwyso.

Sefydlwyd Prifysgol Cymru drwy Siarter Frenhinol ym 1893. Mae cyfansoddiad, pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Brifysgol wedi'u diffinio yn ei Siarter, Statudau, Ordiniannau a Rheoliadau. Cyngor y Brifysgol yw awdurdod llywodraethu goruchaf y Brifysgol ac yn unol â'i brif gyfrifoldeb, sef llywodraethu, rheoli a rheoleiddio cyllid, cyfrifon, buddsoddiadau, eiddo a holl faterion y Brifysgol, Cyngor y Brifysgol sy'n gyfrifol am system o reolaeth fewnol y Brifysgol ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Mae'r systemau hyn wedi'u cynllunio i alluogi i'r Brifysgol weithredu mewn dull trefnus ac effeithlon sy'n gyson â'i pholisïau rheoli, ac i ddiogelu ei hasedion a sicrhau, cyhyd ag y bo'n bosibl, cyflawnder a chywirdeb ei chofnodion. Bwriedir i'r cyfryw system reoli, yn hytrach na dileu, y risg o fethu cyflawni amcanion busnes, ac ni all gynnig ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd absoliwt, yn erbyn camdatganiad o bwys neu gollod.

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth rheoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol a llinellau cyfrifoldeb clir, rheolaeth gyllidebol gadarn o gyllidebau blynyddol cymeradwy, ac adolygiadau ac adroddiadau rheolaidd i'r pwyllgorau cyfrifol ac i'r Cyngor. Mae Archwilwyr Mewnol yn adolygu systemau a gweithdrefnau rheoli'r Brifysgol yn rheolaidd. Mae'r archwilwyr yn mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg wrth lunio strategaethau archwilio a chynlluniau adolygu a chymeradwyo'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r Cyngor yn cael adroddiadau blynyddol oddi wrth yr archwilwyr mewnol ac allanol ar systemau'r Brifysgol o reoli mewnol.

Prif swyddog academaidd a gweithredol y Brifysgol yw'r Is-Ganghellor a'r Prif Weithredwr sydd hefyd yn gweithredu fel swyddog cyfrifon ar gyfer y cyllid a dderbynnir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Ysgrifennydd y Cyngor sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'i weithdrefnau, a hefyd am ddarparu'r holl bapurau ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau yn gywir ac am ddarparu cyngor a gwasanaethau i'w aelodau. Mae Ysgrifennydd y Cyngor yn cadw cofrestr o ddi-ddordebau ariannol a phersonol aelodau'r Cyngor a'i Bwyllgorau yn ogystal â swyddogion hŷn y Brifysgol. Yr Ysgrifennydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod holl aelodau'r Cyngor yn cael eu briffio'n llawn ar eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau, yn derbyn yr holl ddogfennau cefndir, ac yn ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant angenrheidiol. Disgwylir i holl aelodau'r Cyngor ymddwyn yn unol â safonau ymddygiad derbyniol mewn bywyd cyhoeddus, gan fabwysiadu'r cysyniadau o anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd a rhoi arweiniad.

Mae Cyngor y Brifysgol o'r farn bod proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Brifysgol, iddi fod ar waith am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2009 a than ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol a bod Cyngor y Brifysgol yn ei hadolygu a'i bod yn cydymffurfio ag egwyddorion rheolaeth fewnol a llywodraethu cadarn o dan y codau ymarfer a nodwyd uchod.

Mae Cyngor y Brifysgol yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn ac mae iddo sawl pwyllgor sydd wedi'u cyfansoddi i ddarparu cyngor arbenigol. Mae'r rhain yn cynnwys Pwyllgor Adnodu, Pwyllgor Strategaeth, Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phwyllgor Archwilio (ceir manylion llawn yn Atodiad C). Mae'r holl Bwyllgorau hyn wedi eu cyfansoddi'n ffurfiol ac mae iddynt gylch gwaith sy'n caniatáu i fwyafrif eu haelodau penodedig i fod yn aelodau lleig o'r Cyngor. Adroddir ar benderfyniadau ac argymhellion y Pwyllgorau hyn i'r Cyngor.

DATGANIAD LLYWODRAETH GORFFORAETHOL  
2008 - 2009

---

Mae gan Gyngor y Brifysgol bump ar hugain o aelodau, gyda mwyafrif ohonynt yn aelodau lleyg. Etholwyd chwech o'r aelodau gan ac o blith y Sefydliadau Achrededig a dau o blith y Bwrdd Academiaidd. Mae gan staff a myfyrwyr y Brifysgol un aelod yr un. Mae Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr y Brifysgol yn aelod *ex officio* o'r Cyngor. Pan ddaw eu tymor yn y swydd i ben, mae'r holl aelodau yn gymwys i'w hailbenodi am hyd at un tymor arall.

Mae'r Cyngor, mewn perthynas â'i gyfrifoldebau strategol a datblygiadol, yn cael argymhellion a chyngor oddi wrth ei Bwyllgor Strategaeth a'r Pwyllgor Adnoddau. Mae'r Pwyllgor Adnoddau, *inter alia*, yn argymhell i'r Cyngor gyllidebau refeniw a chyfalaf y Brifysgol ac yn monitro perfformiad yr holl weithrediadau mewn perthynas â chyllidebau cymeradwy. Mae hefyd yn gyfrifol i'r Cyngor am baratoi datganiadau ariannol ar gyfer rheolaeth gyffredinol adnoddau ariannol, dynol a ffisegol y sefydliad.

Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer rheoli risgiau o fewn y Brifysgol yn gorwedd â'r Pwyllgor Strategaeth, gyda chefnogaeth y Grŵp Rheoli Risgiau, sy'n cynnwys uwch reolwyr y Brifysgol. Tasg y Pwyllgor Strategaeth yw ystyried ac adolygu'n rheolaidd yr asesiad a rheolaeth o risgiau a chyfluoedd a wynebir gan y Brifysgol a chynghori'r Cyngor yn unol â hynny. Mae'n ofynnol iddo gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar fframwaith rheoli risg y Brifysgol, wedi ystyried gwaith Grŵp Rheoli Risgiau'r Brifysgol. Ystyriwyd canfod, gwerthuso a rheoli'r risgiau a wynebir gan y Brifysgol yn fanwl yn ystod y gwaith o ddatblygu ei Chynllun Strategol newydd, sydd wedi bod ar waith drwy'r flwyddyn. Cafodd a chymeradwyodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol ar risg oedd yn cynnwys matrices risg a rheoli yn cwmpasu holl weithredoedd y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn cael cyngor gan y Bwrdd Academiaidd ar faterion academaidd sy'n syrthio o fewn maes sylw'r Brifysgol. Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n adolygu cyflog y staff hynaf oll, gan gynnwys yr Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr tra bod y Pwyllgor Adnoddau yn cynghori'r Cyngor ar yr holl faterion staffio eraill.

Roedd y Pwyllgor Archwilio yn gweithredu'n unol â'r cylch gwaith a osodwyd gan y Cyngor. Roedd y rhain yn glynu wrth y Cod Ymarfer a ddefnyddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn dilyn y Llawlyfr i Aelodau o Bwyllgorau Archwilio mewn Addysg Uwch a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Cadeiryddion Prifysgol ym mis Chwefror 2008. Cyfarfu'r Pwyllgor deirgwaith yn ystod 2008/09, gydag archwilwyr allanol a mewnol y Brifysgol yn bresennol. Ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau archwilio manwl, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella systemau rheolaeth fewnol y Brifysgol ac atebion y rheolwyr a'r cynlluniau gweithredu. (Lle bo'n berthnasol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cael adroddiadau oddi wrth, *inter alia*, Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, fel y mae'r rhain yn effeithio ar fusnes y Brifysgol, ac mae'n ystyried yr adroddiadau hyn ac yn monitro'r ymlyniad wrth y gofynion rheolaethol.) Er bod y gweithredwyr hŷn wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn ôl yr angen, nid oeddent yn aelodau o'r Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor yn gallu cwrdd â'r archwilwyr allanol a / neu fewnol ar eu pennau eu hunain, am drafodaethau annibynnol. Yn yr un modd, mae gan y Pwyllgor y pŵer i ofyn am unrhyw wybodaeth berthnasol angenrheidiol oddi wrth gyflogedigion y Brifysgol, i gael y cyfryw gyngor annibynnol proffesiynol yr ystyria ei fod yn angenrheidiol ac i sicrhau bod pobl sydd â'r profiad a'r arbenigedd perthnasol yn mynychu os yw'n credu bod angen hyn, hyd yn oed os nad ydynt yn aelodau.

CYFRIFOLDEBAU CYNGOR PRIFYSGOL CYMRU

---

Yn unol â Siarter Frenhinol y Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system effeithiol o reolaeth fewnol, ac mae gofyn iddo gyflwyno datganiadau ariannol archwilledig ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol priodol sydd, ar unrhyw adeg, yn datgelu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn rhesymol o gywir ac yn ei alluogi i sicrhau y caiff y datganiadau ariannol eu llunio yn unol â Siarter Frenhinol y Brifysgol, y Datganiad o Ymarfer Cyfrifydda a Argymhellir ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, a safonau cyfrifydda perthnasol eraill. Yn ogystal, ac o fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol y cytunwyd arno rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor y Brifysgol, mae gofyn i'r Cyngor, drwy ddeiliad dynodedig ei swydd, lunio datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Brifysgol ac o'r gwarged neu'r diffyg, a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn honno.

Wrth beri i'r datganiadau ariannol gael eu llunio, rhaid i'r Cyngor sicrhau:

- y dewisir polisiau cyfrifydda addas ac y cânt eu harfer yn gyson;
- y ffurfir barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn bwylllog;
- bod y safonau cyfrifydda cymwys wedi eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau o bwys a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol;
- y llunnir datganiadau ariannol ar sail y busnes byw onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau i weithredu. **Mae'r Cyngor yn fodlon bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy; am y rheswm hwn mae sail y busnes byw yn parhau i gael ei mabwysiadu wrth lunio'r datganiadau ariannol.**

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol:

- i sicrhau na ddefnyddir cyllid oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ond at y dibenion y cafodd ei roi ar eu cyfer ac yn unol â'r Memorandwm Ariannol â'r Cyngor Cyllido ac unrhyw amodau eraill y gall y Cyngor Cyllido eu pennu o bryd i'w gilydd;
- i sicrhau bod cyfyngiadau ariannol a rheolaethol priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd arian cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill;
- i ddiogelu asedion y Brifysgol ac atal a chanfod twyll;
- i sicrhau rheoli adnoddau a gwariant y Brifysgol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.



ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CYMRU

---

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gyngor Prifysgol Cymru

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Cymru ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Gorffennaf 2008 sy'n cwmpasu'r Cyfrif Incwm a Gwariant, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian, Datganiad Cyfanswm yr Enillion a'r Colledion Cydnabyddedig a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu llunio o dan y polisiau cyfrifydda sydd i'w gweld yno.

Priod Gyfrifoldebau Cyngor ac Archwilwyr y Brifysgol

**Disgrifir cyfrifoldeb y Cyngor am lunio'r datganiadau ariannol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Datganiad o Ymarfer a Argymhellir - Cyfrifydda ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, cyfraith gymwys a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig yn natganiad cyfrifoldebau'r Cyngor.**

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol a Safonau Cenedlaethol Archwilio (y DU ac Iwerddon). Paratowyd yr adroddiad hwn, gan gynnwys y farn a fynegir ynddo, ar gyfer Cyngor Prifysgol Cymru ac ar ei gyfer ef yn unig yn unol â **Siarter a Statudau'r Brifysgol, ac at yr un diben arall. Nid ydym, drwy roi'r farn hon, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall neu i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo/iddi neu i law pwy bynnag y daw, oni bai ein bod wedi cytuno drwy ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.**

Rydym yn adrodd ein barn i chi ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg a ph'un a ydynt wedi eu llunio'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch.

Rydym yn adrodd ein barn i chi a gaiff cyllid o grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a chyllid arall o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y Brifysgol i ddibenion penodol, ei ddefnyddio ym mhob ystyr materol i'r dibenion y'i derbyniwyd a lle bo'n briodol ei reoli mewn cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ac yn ein barn ni, a yw incwm wedi'i gymhwyso yn unol â'r memorandwm ariannol â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Rydym ni hefyd yn adrodd ein barn i chi a yw'r holl wybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad y cyngor yn gyson â'r datganiadau ariannol hynny. Yn ogystal rydym yn adrodd os nad yw'r Brifysgol, yn ein barn ni, wedi cadw cofnodion cyfrifo digonol, os yw'r datganiadau'n anghytuno â'r cofnodion cyfrifo neu os nad ydym ni wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Rydym yn darllen yr wybodaeth arall a gynhwysir yn Adroddiad y Cyngor ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad ni os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau materol â'r datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr Adolygiad Gweithredu ac Ariannol a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn unig.

Rydym ni hefyd yn adolygu'r datganiad o reolaeth fewnol a gynhwysir fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ac yn gwneud sylwadau os yw'r datganiad yn anghyson â'n gwybodaeth am y Brifysgol. Nid oes gofyn i ni ystyried a yw'r datganiad o reolaeth fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a'r rheolaethau, nac i ffurfio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Brifysgol, na'r gweithdrefnau risg a rheoli. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad ni os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau â'r datganiadau ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn cwmpasu unrhyw wybodaeth arall.

## ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GYNGOR PRIFYSGOL CYMRU - Parhad

## Sail Barn yr Archwilwyr

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Ymarfer Archwilio, a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae archwiliad yn cynnwys astudio, ar sylfaen brawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesu'r amcangyfrifon a'r barnau o bwys a wnaed gan y Cyngor wrth lunio'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifydda yn **gweddu i amgylchiadau'r** Brifysgol a gymhwysir hwy'n gyson ac a ddatgelir hwy'n ddigonol.

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein harchwiliad er mwyn i ni gael yr holl wybodaeth a phob esboniad yr oedd eu hangen, yn ein barn ni, i roi digon o dystiolaeth i ni deimlo'n rhesymol o sicr bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, p'un a achoswyd hwy gan dwyll neu ryw afreoleidd-dra neu wall arall. Wrth ffurfio ein barn, gwerthuswyd gennym hefyd ddigonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn ein barn ni:

- i. **mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2009, ac incwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifoedd arian y Brifysgol ar gyfer y flwyddyn a ddiwedddod bryd hynny;**
- ii. **mae'r datganiadau ariannol wedi eu llunio'n briodol yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Datganiad o Ymarferion a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch ac arferion Cyfrifydda Derbyniol y Deyrnas Unedig;**
- iii. ym mhob modd o bwys, mae arian a gaiff ei wario o grantiau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a chronfeydd eraill o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Brifysgol at ddibenion penodol wedi eu defnyddio'n briodol at y dibenion hynny y'u cafwyd ar eu cyfer yn unig ac, os **yw'n briodol, wedi eu rheoli i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol;**
- iv. **ym mhob modd o bwys, cafodd yr incwm ei ddefnyddio yn unol â Statudau'r Brifysgol a, lle bo'n briodol, yn unol â'r memorandwm ariannol a ddyddiwyd 1 Awst 2008 a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.**

PricewaterhouseCoopers LLP  
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig  
Caerdydd

14 Rhagfyr 2009

Noder: Cyfrifoldeb Cyngor y Brifysgol yw cynnal a gonestrwydd gwefan y Brifysgol; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai ddigwydd i'r datganiadau ariannol pan fyddant yn ymddangos ar y wefan. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

## DATGANIAD O'R PRIF BOLISIÂU CYFRIFYDDA

### 1. Confensiwn Cyfrifydda

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu llunio o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd drwy ailbriso rhai buddsoddiadau asedion gosodedig ac asedion gwaddol, ac yn unol â'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2007 a'r Safonau Cyfrifyddu sy'n gymwys. Maent yn cydymffurfio hefyd â'r Cyfarwyddyd Cyllid diweddaraf i'w gyhoeddi gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ym mis Ionawr 2009 (cyfeirnod W09/02HE).

Nodir crynodeb o'r polisiâu cyfrifydda pwysicaf isod, ynghyd ag esboniad o ble nad ydynt wedi eu gweithredu'n gyson.

### 2. Cydnabod Incwm yn y Cyfrif Incwm a Gwariant

Caiff grantiau cylchol gan CCAUC neu gyrff eraill eu cydnabod yn y cyfnod y maent yn dderbyniadwy.

Caiff incwm cylchol o grantiau, contractau a gwasanaethau eraill a ddarperir eu cyfrif ar sail **gronws ac i'r graddau y cyflawnwyd y contract neu'r gwasanaeth dan sylw**; caiff unrhyw daliad a dderbynnir cyn y cyfryw berfformiad ei gydnabod ar y fantolen fel rhwymedigaeth.

Caiff rhoddion â chyfyngiadau eu cydnabod pan fydd amodau perthnasol wedi'u cwrdd; mewn llawer o achosion mae cydnabyddiaeth yn uniongyrchol berthnasol i wariant ar bwrsasau penodol. Caiff rhoddion sydd i'w cadw er budd y Brifysgol eu cydnabod yn y datganiad o gyfanswm enillion a cholledion ac mewn gwaddolion; caiff rhoddion eraill eu cydnabod drwy gael eu cynnwys fel incwm arall yn y cyfrif incwm a gwariant.

Caiff grantiau anghylchol a dderbynnir mewn perthynas â chaffael neu greu asedion sefydlog eu trin fel grantiau cyfalaf gohiriedig. Caiff grantiau o'r fath eu credydu i grantiau cyfalaf gohiriedig a gwneir trosglwyddiad blynyddol i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased, ar yr un gyfradd â'r gost dibrisiant ar yr ased y dyfarnwyd y grant ar ei gyfer.

Caiff incwm o werthiant nwyddau neu wasanaethau ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau yn cael eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan fydd telerau'r cytundeb wedi'u bodloni.

Caiff incwm o waddolion a buddsoddiadau ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail dderbyniadwy. Caiff incwm o waddolion cyfyngedig na ddefnyddir yn unol â'r cyfyngiadau ar y gwaddolion hynny ei drosglwyddo o'r cyfrif incwm a gwariant i waddolion cyfyngedig. Caiff unrhyw enillion neu golledion cyflawnedig o ymdrin â'r asedion perthynol eu cadw o fewn y gwaddol yn y fantolen.

Caiff unrhyw gynnydd mewn gwerth sy'n codi o ailbriso buddsoddiadau asedion sefydlog ei gario fel credyd i'r gronfa ailbriso, drwy'r datganiad o gyfanswm enillion a cholledion a gydnabyddir; caiff lleihad yn y gwerth ei osod ar y cyfrif incwm a gwariant fel dyled, i'r graddau nad yw gwarged ailbriso blaenorol yn ddigonol i'w dalu.

Caiff cynnydd neu ostyngiad mewn gwerth sy'n codi ar ailbriso neu waredu asedion gwaddol h.y. arbrisant neu ddibrisiant asedion gwaddol, ei ychwanegu neu ei dynnu o'r cronfeydd dan sylw a chyfrifir amdano drwy'r fantolen drwy ddebydu neu gredydu'r ased gwaddol a'r gronfa gwaddol ac fe'i hadroddir yn y datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig.

**DATGANIAD O'R PRIF BOLISIAU CYFRIFYDDA** - Parhad

## 3. Cyfrifo ar gyfer Buddion Ymddeol

Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at ddau ddau brif gynllun pensiwn ar gyfer staff y Brifysgol - Cynllun Blwydd-dâl y Prifysgolion (USS) a Chynllun Blwydd-dâl Prifysgol Cymru (UWSS). Mae'r cynlluniau yn gynlluniau budd-daliadau diffiniedig a gaiff eu hariannu'n allanol ac sydd wedi eu contractio allan o'r Ail Bensiwn y Wladwriaeth (S2P). Caiff Asedion y Cynlluniau eu dal mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Caiff y cronfeydd eu prisio bob tair blynedd gan actiwariaid annibynnol sy'n meddu ar y cymwysterau proffesiynol gan ddefnyddio'r dull unedau amcanestynedig, a phennir y cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan yr ymddiriedolwyr yn unol â chyngor yr actiwariaid. Yn y blynyddoedd rhwng y prisiadau, mae'r actiwariaid yn adolygu cynnydd y cynlluniau.

## USS

Oherwydd natur gilyddol y cynllun nid oes modd i'r Brifysgol adnabod ei siâr o asedion a rhwymedigaethau gwaelodol yn y cynllun ar sail gyson a rhesymol. Felly, yn ôl gofyniad FRS 17 "Buddion Ymddeol", mae'r Brifysgol yn cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun â chyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad, mae'r cyfanswm a godir ar y cyfrif incwm a gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun mewn perthynas â'r cyfnod cyfrifo.

## UWSS

Caiff asedion UWSS eu mesur ar werth y farchnad wrth iddi gau ar 31 Gorffennaf pob blwyddyn. Mae ei rhwymedigaethau yn cael eu mesur gan actwari annibynnol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau ac yn cael eu disgowntio ar raddfa gyfredol adenillion ar fond corfforaethol o ansawdd uchel cyfatebol o ran tymor a chyfred i'r rhwymedigaeth. Mae'r cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun y disgwylir iddo godi o wasanaeth cyflogai yn y cyfnod yn cael ei godi ar y gweddill gweithredol. Mae'r adenillion disgwylidig ar asedion y cynllun a'r cynnydd yn ystod y cyfnod ar werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun, yn codi o dreigl amser, wedi'u cynnwys yn y costau cyllid pensiwn. Caiff enillion a cholledion actiwariaid eu cydnabod yn y datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig cyflawn.

## 4. Arian Tramor

Cofnodir trafodaethau a gynhaliwyd mewn arian tramor ar y gyfradd gyfnewid a oedd mewn grym ar ddyddiadau'r trafodaethau. Trosir asedion a rhwymedigaethau ariannol a gynhaliwyd mewn arian tramor i arian Prydeinig naill ai ar y cyfraddau ar ddiwedd y flwyddyn neu, lle y bo blaen-gontractau arian tramor cysylltiedig, yn ôl cyfraddau'r contractau hynny. Caiff y gwahaniaethau cyfnewid sy'n deillio o hynny eu trin wrth benderfynu ar yr incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol.

## 5. Tir ac Adeiladau

Nodir Tir ac Adeiladau yn ôl eu cost, ac eithrio yn achos Gregynog a nodir yn ôl gwerth profiant heb ychwanegiadau neu warediadau yn ôl eu cost neu ynghyd â hwy. Dibrisir adeiladau dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwylidig hyd at 50 mlynedd ar y mwyaf.

Caiff costau mewn perthynas ag ased cyffyrddadwy sefydlog, ar ôl iddo gael ei bwrcasu neu ei gynhyrchu, eu cyfalafu i'r graddau eu bod yn cynyddu buddion y dyfodol i'r sefydliad sy'n deillio o'r ased cyffyrddadwy y tu hwnt i'w safon perfformio a aseswyd yn flaenorol; caiff cost unrhyw welliant o'r fath ei ychwanegu i gyfanswm gros yr ased cyffyrddadwy dan sylw. Lle prynir adeiladau gyda chymorth grant penodol, er enghraifft oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru neu gyrff eraill, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y disgrifir uchod. Ymdrinnir â'r grantiau cysylltiedig fel grantiau cyfalaf gohiriedig ac fe'u rhyddheir i incwm dros oes ddefnyddioldeb disgwylidig yr adeiladau.

**DATGANIAD O'R PRIF BOLISIAU CYFRIFYDDA - Parhad**

Gwneir adolygiad ynghylch amharu ar ased gosodedig os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn nodi na ellir hwyrach adfer y swm sy'n cludo'r ased gosodedig.

## 6. Offer

Caiff gwerth offer sy'n costio llai na £10,000 am bob eitem unigol neu grŵp o eitemau cysylltiedig ei ddileu ym flwyddyn eu prynu. Caiff yr holl offer eraill eu cyfalafu.

Nodir offer a gyfalafwyd yn ôl eu cost ac fe'u dibrisir ar sail llinell-syth dros gyfnod disgwylidig eu defnyddioldeb, fel a ganlyn:

Gosodiadau cyfrifiadurol o bwys ac offer ffôn	-	7 mlynedd
Cerbydau modur ac offer cyffredinol	-	4 blynedd
Liffitiau	-	15 mlynedd
Offer ar gyfer prosiectau ymchwil penodol	-	Oes y prosiect (3 blynedd fel rheol)

Lle y prynir offer gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y nodir uchod. Caiff y grant cysylltiedig ei drin fel grant a geir ymlaen llaw ac a ryddheir i incwm dros oes ddefnyddioldeb disgwylidig yr offer (cyfnod y grant mewn perthynas â phrosiectau ymchwil penodol).

## 7. Buddsoddiadau

Gan fod Buddsoddiadau Asedion Gwaddol a Buddsoddiadau Asedion Gosodedig yn fuddsoddiadau na chânt eu dal er mwyn eu gwireddu ar unwaith, fe'u cynhwysir yn y Fantolen yn ôl eu gwerth marchnad. Cynhwysir Buddsoddiadau Asedion Cyfredol ar yr isaf o'u cost a'u gwerth gwireddadwy net.

## 8. Cyfrifo ar gyfer Rhoddion Elusennol

- Rhoddion heb Gyfyngiadau

Caiff rhoddion elusennol eu cydnabod yn y cyfrifon pan fydd y rhodd elusennol wedi'i derbyn, neu os oes digon o dystiolaeth cyn derbyn i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol y bydd y rhodd yn cael ei derbyn a bod modd mesur gwerth yr adnoddau hynny yn ddigon dibynadwy.

- Gwaddolion

Lle bydd rhoddion elusennol yn cael eu cadw er budd y Brifysgol fel y pennir gan y rhoddwyr, caiff y rhain eu cyfrif fel gwaddolion. Mae dau brif fath yn cael eu dal gan y Brifysgol:

- Gwaddolion parhaol heb gyfyngiadau – mae'r rhoddwr wedi pennu y dylid buddsoddi'r gronfa'n barhaol i greu llif incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.
- Gwaddolion parhaol cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu y dylid buddsoddi'r gronfa'n barhaol i greu llif incwm i'w ddefnyddio i bwrpas penodol.

- Rhoddion ar gyfer Asedion Sefydlog

Dangosir rhoddion a dderbynnir i'w gosod yn erbyn cost ased sefydlog cyffyrddadwy ar y fantolen fel grant cyfalaf gohiriedig. Caiff y grant cyfalaf gohiriedig ei ryddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros yr un oes ddefnyddiol a amcangyfrifir ac a ddefnyddir i bennu'r gost dibrisiant a gysylltir â'r ased sefydlog cyffyrddadwy.

**DATGANIAD O'R PRIF BOLISIAU CYFRIFYDDA** - Parhad

---

## 9. Stociau

Prisir y stociau o lyfrau a ddelir gan Wasg y Brifysgol ar ben isaf eu cost a'u gwerth gwireddadwy net; dibrisir y llyfrau mewn stoc dros gyfnod o 2 flynedd, 3.5 blynedd neu 5 mlynedd o ddyddiad eu cyhoeddi fel y pennir gan Is-Bwyllgor y Wasg pan gomisiynir y teitlau.

Caiff stociau o eitemau treuliadwy masnachol yng Ngregynog hefyd eu prasio ar yr isaf o'u cost a'u gwerth gwireddadwy net.

## 10. Llifoedd Arian ac Adnoddau Hylifol

Mae llifoedd arian yn cwmpasu cynnydd neu ostyngiadau mewn arian. Mae arian yn cynnwys **arian mewn llaw, adneuron sy'n ad-daladwy** ar alwad a gorddrafftiau. Mae adneuron yn ad-daladwy ar alwad os ydynt yn ymarferol ar gael o fewn 24 awr heb gosb. Ni chynhwysir unrhyw fuddsoddiadau, er mor hylifol y byddont, fel arian.

Mae adnoddau hylifol yn cwmpasu cyfansymiau ar adnau tymor byr gyda banciau, cymdeithasau adeiladu a gwarannau llywodraeth cydnabyddedig

## 11. Cynnal a Chadw Adeiladau

**Yn unol â FRS12, mae'r Brifysgol yn gosod costau cynnal a chadw cywirol tymor-hir a rheolaidd ar y cyfrif incwm a gwariant fel y'u tynnir. Mae gwariant mawr sy'n gwella buddion economaidd yr adeiladau mewn unrhyw fodd yn cael ei gyfalafu yn unol â FRS 15.**

## 12. Statws Trethiannol

Mae'r Brifysgol yn elusen a eithriwyd o fewn ystyr Atodlen 2 Deddf Elusennau 1993 a Deddf Elusennau 2006, ac, fel y cyfryw, mae'n elusen o fewn ystyr Adran 506(1) Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988. Yn unol â hynny, mae'r Brifysgol wedi ei heithrio, o bosibl, rhag cael ei threthu mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn y categorïau a ddaw o dan Adran 505 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988 neu Adran 256 Deddf Trethu Enillion Taladwy 1992 i'r graddau y cymhwysir yr incwm hwnnw neu'r enillion hynny at ddibenion elusennol yn unig. Nid eithrir y Brifysgol yn yr un modd mewn perthynas â Threth ar Werth. Caiff Treth ar Werth anadferadwy ar **fewnbynnau ei chynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath** fel y mae Treth ar Werth anadferadwy ar gostau asedion sefydlog cyffyrddadwy.

## 13. Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan y Brifysgol ymrwymiad cyfreithiol presennol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol; mae'n debygol y bydd yn ofynnol trosglwyddo budd economaidd er mwyn ad-dalu'r ymrwymiad, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm yr ymrwymiad.

CYFRIF INCWM A GWARIANT  
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2009

	Nodyn	2009 £	2008 £
<b>INCWM</b>			
Grantiau'r Cyngor Cyllido	1	581,773	696,907
Grantiau a Chontractau Ymchwil	2	356,737	83,939
Incwm Gweithredu Arall	3	9,759,852	8,451,660
Incwm Gwaddol ac Incwm o Fuddsoddiadau	4	1,154,918	1,378,299
		11,853,280	10,610,805
<b>CYFANSWM YR INCWM</b>			
<b>GWARIANT</b>			
Costau Staff	5	4,157,489	3,504,058
Costau Ailstrwythuro Eithriadol	5	-	73,539
Amhariad Eithriadol o Adneuron Banciau Gwlad yr Iâ	6 & 23	528,000	-
Treuliau Gweithredu Eraill	6	6,608,239	5,526,961
Dibrisiant	8	129,165	121,672
		11,422,893	9,226,230
<b>CYFANSWM Y GWARIANT</b>			
Gwarged cyn Eitemau Eithriadol		958,387	1,458,114
Costau Ailstrwythuro		-	(73,539)
Amhariad Adneuron Banciau Gwlad yr Iâ		(528,000)	-
Gwarged ar <b>Weithrediadau ar ôl Dibrisio'r</b> Asedion Sefydlog Cyffyrddadwy ar Gost		430,387	1,384,575
Gwarged am y Flwyddyn a Drosglwyddwyd i Incwm Cronnus mewn Cronfeydd Gwaddol		(16,095)	(77,538)
Gwarged am y Flwyddyn a Gadwyd o fewn y Cronfeydd Cyffredinol		414,292	1,307,037

**Mae'r cyfrif Incwm a Gwariant yn ymwneud â gweithgareddau sy'n parhau.**

Nodyn ar Wargedion a Diffygion Costau Hanesyddol

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y gwarged incwm dros wariant a ddatgelir a fynegir uchod a'r hyn sy'n cyfateb i'w gost hanesyddol.

DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG  
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2009

	Nodyn	2009 £	2008 £
Gwarged ar Weithrediadau Cyfredol ôl Dibrisio Cost Asedion Cyffyrddadwy		430,387	1,384,575
Dibrisiant Buddsoddiadau Asedion Sefydlog	18	(421,813)	(755,212)
Dibrisiant Buddsoddiadau Asedion Gwaddol	16	(995,743)	(1,782,392)
Gwaddolion Newydd	16	-	6,000
Colled Actwaraidd ar y Cynllun Pensiwn	24(b4)	(623,000)	(949,000)
CYFANSWM Y COLLEDION CYDNABYDDEDIG SY'N YMWNEUD Â'R FLWYDDYN		<u>(1,610,169)</u>	<u>(2,096,029)</u>
CYSONI			
Cronfeydd a Gwaddolion Agoriadol		28,915,549	31,011,578
Cyfanswm y Colledion Cydnabyddedig yn ymwneud â'r Flwyddyn		<u>(1,610,169)</u>	<u>(2,096,029)</u>
CRONFEYDD A GWADDOLION TERFYNOL		<u>27,305,380</u>	<u>28,915,549</u>



## Y FANTOLEN AR 31 GORFFENNAF 2009

	Nodyn	2009 £	2008 £
Asedion Sefydlog			
Asedion Cyffyrddadwy	8	2,065,721	2,130,967
Buddsoddiadau	9	5,379,790	5,801,603
		<hr/>	<hr/>
CYFANSWM ASEDION SEFYDLOG		7,445,511	7,932,570
		<hr/>	<hr/>
BUDDSODDIADAU GWADDOL	10	14,089,251	15,068,899
		<hr/>	<hr/>
Asedion Cyfredol			
Stociau	11	460,974	515,322
Dyledwyr	12	3,874,227	2,590,906
Adneuon Tymor-Byr	20	4,834,000	5,310,000
Arian yn y Banc ac mewn Llaw	20	659,237	749,463
		<hr/>	<hr/>
Cyfanswm Asedion Cyfredol		9,828,438	9,165,691
Llai: Credydwyr - Symiau sydd i'w talu cyn pen blwyddyn	13	2,193,362	1,918,422
		<hr/>	<hr/>
Asedion Cyfredol Net		7,635,076	7,247,269
		<hr/>	<hr/>
Cyfanswm yr Asedion Llai'r Rhwymedigaethau Cyfredol		29,169,838	30,248,738
		<hr/>	<hr/>
Llai: Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Chostau	14	-	42,919
		<hr/>	<hr/>
ASEDION NET HEB GYNNWYS RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN		29,169,838	30,205,819
		<hr/>	<hr/>
RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN	24(b5)	(1,233,000)	(616,000)
		<hr/>	<hr/>
CYFANSWM ASEDION NET YN CYNNWYS RHWYMEDIGAETH CYNLLUN PENSIWN		27,936,838	29,589,819
		<hr/>	<hr/>

## Y FANTOLEN AR 31 GORFFENNAF 2009 - Parhad

	Nodyn	2009 £	2008 £
Cynrychiolir gan y canlynol:			
GRANTIAU CYFALAF GOHIRIEDIG	15	631,458	674,270
GWADDOLION			
Gwaddolion Parhaol Anghyfyngedig		7,950,322	8,570,444
Gwaddolion Parhaol Cyfyngedig		6,138,929	6,498,455
CYFANSWM GWADDOLION PARHAOL	16	14,089,251	15,068,899
WRTH GEFN			
Cyfrif Incwm a Gwariant ac eithrio Cronfa Pensiynau Wrth Gefn	17	12,248,175	11,828,900
Cronfa Pensiynau Wrth Gefn	17	(1,233,000)	(616,000)
Cyfrif Incwm a Gwariant gan gynnwys Cronfa Bensiwn wrth gefn		11,015,175	11,212,900
Cronfa Gyfalaf nad oes modd ei Dosbarthu	18	668,567	679,550
Cronfa Ailbrasio wrth gefn	18	1,532,387	1,954,200
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN		13,216,129	13,846,650
CYFANSWM CRONFEYDD		27,936,838	29,589,819

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 11 i 38 gan Gyngor y Brifysgol ar 14 Rhagfyr 2009, ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

YR ATHRO R.M. CLEMENT – Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr

A. THOMAS – Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau

D.I. GEORGE – Cyfarwyddwr Adnoddau

**DATGANIAD LLIF ARIAN**  
**AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 GORFFENNAF 2009**

	Nodyn	2009 £	2008 £
<b>ALL-LIF ARIAN NET O'R</b>			
GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU	19	(745,736)	(918,102)
<b>ADENILLION AR FUDDSODDIADAU A GWASANAETHU CYLLID</b>			
Incwm o Waddoliadau	16	615,450	658,538
Llog a Dderbyniwyd	4	530,468	608,761
		<hr/>	<hr/>
Mewnlif Arian Net o Adenillion ar Fuddsoddiadau		1,145,918	1,267,299
<b>GWARIANT CYFALAF A BUDDSODDIAD ARIANNOL</b>			
Taliadau i Brynu Asedion Cyffyrddadwy	8	(63,919)	(187,874)
Taliadau i Brynu Buddsoddiadau Asedion Gwaddol	10	(16,095)	(83,538)
Grantiau Cyfalaf Gohiriedig	15	9,893	119,637
Gwaddolion a Dderbyniwyd	16	-	6,000
		<hr/>	<hr/>
All-lif Arian Net o Weithgareddau Buddsoddi		(70,121)	(145,775)
<b>(ALL-LIF) / MEWNLIF ARIAN CYN DEFNYDDIO ADNODDAU HYLIFOL A CHYLLIDO</b>		330,061	203,422
RHEOLI ADNODDAU HYLIFOL	20	(420,287)	518,000
		<hr/>	<hr/>
<b>(GOSTYNGIAD) / CYNNYDD MEWN ARIAN DROS Y FLWYDDYN</b>	20	(90,226)	721,422
		<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>
<b><u>CYSONI LLIF ARIAN NET I SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD NET</u></b>			
(Gostyngiad) / Cynnydd mewn Arian yn y Flwyddyn		(90,226)	721,422
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn Adneuron Tymor-Byr		420,287	(518,000)
Newidiadau heb fod yn arian parod	20	(896,287)	-
		<hr/>	<hr/>
<b>NEWID MEWN CRONFEYDD NET DROS Y FLWYDDYN</b>		(566,226)	203,422
Cronfeydd Net ar 1 Awst		6,059,463	5,716,441
Trosglwyddo Gwaddol	17	-	139,600
		<hr/>	<hr/>
Cronfeydd Net ar 31 Gorffennaf	20	5,493,237	6,059,463
		<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

## NODIADAU'R DATGANIADAU ARIANNOL

	Nodyn	2009 £	2008 £
1. GRANTIAU'R CYNGOR CYLLIDO			
<b>Grantiau sy'n dod Drosodd a Thro</b>		246,322	245,535
Grantiau Penodol:			
Uned Geiriadur Prifysgol Cymru		158,400	154,154
Cyhoeddiadau ac Ymchwil Astudiaethau Celtaidd		-	84,767
Gwasg y Brifysgol		130,091	126,609
<b>Gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol</b> – y Gofrestrfa		-	9,234
Costau CDACC – y Gofrestrfa		-	12,187
Cronfeydd Buddoddi Ymchwil – y Ganolfan Geltaidd		2,225	28,052
Grantiau Cyfalaf Gohiriedig a Ryddhawyd yn ystod y Flwyddyn			
Adeiladau	15	11,940	11,940
Offer	15	32,795	24,429
		<u>581,773</u>	<u>696,907</u>
2. GRANTIAU A CHONTRACTIAU YMCHWIL			
Cynghorau Ymchwil BIS		246,911	82,439
Elusennau'r DU (eraill)		11,311	-
Cyrff Llywodraeth Ganolog y DU		4,179	1,500
Diwydiant y DU		14,362	-
Cyrff Llywodraeth yr UE		79,974	-
		<u>356,737</u>	<u>83,939</u>
3. INCWM GWEITHREDU ARALL			
Grantiau Cymorth Ffederal oddi wrth Aelod Sefydliadau		814,000	849,000
Preswylfeydd, Arlwygo a Chynadleddau		939,270	918,873
Gwasanaethau Eraill a Ddarparwyd – Gwasanaethau Dilysu		7,038,928	5,440,765
Gwasanaethau Eraill a Ddarparwyd – Gwasanaethau Eraill		110,550	71,926
Gwerthu Cyhoeddiadau		458,442	823,976
Grantiau Cyhoeddi		16,537	51,705
Incwm Arall		382,125	295,415
		<u>9,759,852</u>	<u>8,451,660</u>
4. INCWM GWADDOL A BUDDSODDI			
Incwm o Fuddsoddiadau Asedion Gwaddol Parhaol Anghyfyngedig	16	346,773	361,812
Incwm o Fuddsoddiadau Asedion Gwaddol Parhaol Cyfyngedig	16	268,677	296,726
Llog Derbyniadwy Arall		530,468	608,761
<b>Adenillion Net o Gyllido'r Ddarpariaeth</b>			
Cynllun Pensiwn	24(b3)	9,000	111,000
		<u>1,154,918</u>	<u>1,378,299</u>

## NODIADAU'R DATGANIADAU ARIANNOL - Parhad

	2009 £	2008 £
5. COSTAU STAFF		
Cyflogau Misol ac Wythnosol	3,427,269	2,869,967
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol	273,020	223,785
Costau Pensiynau Eraill gan gynnwys Addasiad FRS 17 [Nodyn 25]	457,200	410,306
	<hr/>	<hr/>
